# Canllawiau Cludiant am ddim i'r Ysgol a'r Coleg ar gyfer Dysgwyr Ôl-16 sy'n Byw yng Nghonwy

Mae dysgwyr Ôl-16 rhwng 16 ac 18 mlwydd oed. Nid yw darparu cludiant o'r cartref i'r ysgol ar gyfer dysgwyr Ôl-16 yn ofyniad statudol ac mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn dewis darparu cymorth i ddysgwyr Ôl-16 er mwyn iddynt barhau â'u haddysg. I dderbyn cludiant am ddim i'r ysgol neu goleg bydd angen i chi fodloni meini prawf penodol.

## Pwy all dderbyn Cludiant am Ddim i'r Ysgol/Coleg?

Caiff cludiant Ôl-16 ei ddarparu i'r sefydliad addysgol agosaf, os yw'n 3 milltir neu fwy o gyfeiriad cartref y dysgwr ar lwybr cerdded. Fe allai hyn fod i'r ysgol uwchradd dalgylch/ysgol cyfrwng Cymraeg agosaf neu'r coleg Addysg Bellach agosaf. Os ydych chi'n dewis mynd i sefydliad sydd ddim yn eich dalgylch neu'r agosaf, bydd angen i chi wneud eich trefniadau cludiant eich hun. Mae'n rhaid i chi fod o dan 19 oed ar 1 Medi yn y flwyddyn academaidd rydych yn ymgeisio ar ei chyfer.





## Sut ydw i'n gwneud cais ar gyfer cludiant ôl-16 am ddim i'r ysgol neu goleg?

Bydd angen gwneud ceisiadau ar gyfer cludiant ôl-16 am ddim i'r ysgol/coleg yn uniongyrchol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy gan ddefnyddio'r ddolen hon [Cludiant i'r ysgol: cludiant am ddim i'r ysgol / coleg - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy]. Caiff ceisiadau eu derbyn o fis Chwefror 2025.

## Ydw i'n gymwys ar gyfer cludiant am ddim i'r ysgol ar gyfer dysgwyr ôl-16?

| | |
|---|---|
| Ai'r sefydliad addysgol hwn yr hoffech ei fynychu yw'r agosaf neu'r ysgol chweched ddosbarth agosaf neu'r ysgol Gymraeg agosaf (gallwch wirio hyn drwy chwilio ar gyfer Fy Nghymdogaeth ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ) neu eich Coleg Addysg Bellach agosaf? | |
| Os felly, a yw'r sefydliad addysgol dros 3 milltir o gyfeiriad eich cartref ar lwybr cerdded? | |
| Os felly i'r uchod, efallai y byddwch yn gymwys ar gyfer cludiant am ddim i'r ysgol/coleg. Bydd angen i chi wneud cais i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy gan ddefnyddio'r ddolen ganlynol: Cludiant i'r Ysgol : cludiant i'r ysgol / coleg - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy o fis Chwefror 2025. | |

## Cofiwch

- Mae'n rhaid i chi wneud cais yn uniongyrchol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Gwnewch gais cyn gynted â phosib ar ôl i'r broses ymgeisio agor
- OS ydych chi'n gymwys ar gyfer cludiant, efallai bydd angen i chi gadarnhau eich bod yn dymuno derbyn y cynnig ar gyfer cludiant i'r ysgol/coleg unwaith rydych yn derbyn y canlyniadau
- Gall trefniadau cludiant gymryd hyd at 10 diwrnod gwaith unwaith rydych wedi cadarnhau eich bod yn derbyn y cynnig am gludiant am ddim i'r ysgol/coleg
- Bydd angen i chi baratoi i ganfod eich ffordd i'r coleg neu'r ysgol ad ddechrau mis Medi os ydym yn disgwyl am ragor o wybodaeth gennych (megis amserlen neu gadarnhau os hoffech dderbyn y cynnig ar gyfer y cludiant); neu wrth i ni roi trefniadau cludiant ar waith.
- Os nad ydych yn gymwys ar gyfer cludiant ôl-16 am ddim i'r ysgol, gallwch siarad â'ch ysgol neu goleg